

# Meini Prawf Ariannu:

## Cronfa Waddol Gymunedol Sir Ddinbych

Mae Cronfa Waddol Gymunedol Sir Ddinbych yn cefnogi nifer o fentrau:

- Prosiectau sy'n cefnogi datblygiad addysgol plant a phobl ifanc o oedran ysgol
- Prosiectau sy'n cefnogi datblygiad addysgol plant yn y blynyddoedd cynnar
- Prosiectau ysgol sy'n cefnogi materion iechyd a byw'n iach
- Prosiectau cyrhaeddiad addysgol, gan gynnwys dysgu gydol oes
- Prosiectau cynhwysiant mewn addysg, gyda chymorth i fyfyrwyr dawnus ar ffurf ysgoloriaethau, cymorth costau teithio, chwaraeon, gwobrau am gyrhaeddiad a deunyddiau addysgol neu adnoddau eraill

### Grantiau ar gael

- Gall unigolion wneud cais am grantiau o hyd at £500
- Gall sefydliadau wneud cais am grantiau o hyd at £1,000

### Pwy a all ymgeisio?

- Myfyrwyr hyd at a chan gynnwys 25 mlwydd oed sy'n byw'n llawn amser yn ardal Awdurdod Lleol Sir y Ddinbych, cyn belled nad yw'r mentrau'n berthnasol i ddarpariaeth statudol.
- Grwpiau a sefydliadau yn ardal Awdurdod Lleol Sir y Ddinbych sy'n cynnal prosiectau cymunedol cyn belled nad yw'r mentrau'n berthnasol i ddarpariaeth statudol. (e.e. clwbiau ar ôl ysgol, clwbiau brecwast, prosiectau garddio a.y.y.b.)

Bu blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ymgeiswyr sy'n dangos orau sut y maent yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau y Gronfa, ac sydd heb dderbyn grant o'r Gronfa hon yn y gorffennol.

### Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais y gellir ei chyrru drwy wefan y Sefydliad Cymunedol Cymru.

Gellir e-bostio ceisiadau i [grants@communityfoundationwales.org.uk](mailto:grants@communityfoundationwales.org.uk)

Nodwch, os gwelwch yn dda:

- Ni ddyfernir grantiau yn ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn y llythyr cynnig grant a chyn llofnodi'r telerau ac amodau.
- Ni fydd prosiectau sy'n perthyn i'r sector statudol e.e. unrhyw beth sy'n rhan o'r cwricwlwm ysgol, yn cael eu cefnogi
- Rhaid i ymgeiswyr (yn enwedig ymgeiswyr unigol) allu dangos yr angen ariannol a chymdeithasol y bydd y grant yn ei ddiwallu
- Ni ddyfernir grantiau i unigolion tuag at gostau os oes cymorth ariannol arall ar gael e.e. ffioedd dysgu os yw'r ymgeisydd yn gymwys i gael benthyciad i fyfyrwyr.
- Gall mudiadau ac unigolion ond ymgeisio i'r gronfa unwaith mewn unrhyw gyfnod o 12 mis